



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

# Diweddariad am y brechlyn Vaccination Update



*Cylchlythyr Wythnosol* Weekly Newsletter

Dydd Llun 4 Hydref 2021 Rhifyn 38

**CYNNYDD WYTHNOSOL 27 Medi – 3 Hydref 2021**

**Lansiwyd y Rhaglen Atgyfnerthu ar 20 Medi.**

**Ers y dyddiad hwn, rydym wedi dosbarthu 27,000 o frechlynnau atgyfnerthu Covid-19, ac mae hynny'n gyflawniad arbennig.**

**Ymhlith y rhain mae preswylwyr cartrefi gofal i oedolion hŷn a'u gofalwyr, pobl dros 80 oed a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar y rheng flaen.**

**Mae cyfanswm o 905,623 brechlyn Covid-19 wedi'u dosbarthu ers dechrau'r rhaglen.**

Mynychodd Mr a Mrs Lewis sydd dros 80 oed o Gaerffili Ganolfan Brechu Torfol Pontllanfraith i gael eu brechlyn atgyfnerthu. Maent wedi ymdopi yn ystod y pandemig gyda digonedd o gymorth gan y teulu ynghyd â chadw'n brysur yn eu gardd fawr. Dywedodd Mr a Mrs Lewis, '**Mae'r brechlyn yn angenrheidiol, mae angen i bawb fynd amdano er mwyn diogelu ein gilydd**'. Roedd y ddau yn falch o gael llythyr yn eu gwahodd am frechlyn Atgyfnerthu COVID-19.



Mr a Mrs Lewis

Mae ein timau symudol yn parhau i gynnig brechlynnau atgyfnerthu Covid-19 i breswylwyr cartrefi gofal i oedolion hŷn a'u gofalwyr ledled Gwent.

Hyd yn hyn, rydym wedi brechu \*\* o gartrefi gofal.

## WYTHNOS NESAF 4 HYDREF - 10 Hydref 2021

### Pwy ydym ni'n eu brechu'r wythnos hon?

Yr wythnos hon, rydym yn parhau i frechu trigolion imiwnoataliedig, preswylwyr cartrefi gofal i oedolion hŷn a'u gofalwyr, trigolion dros 75 oed, pobl ifanc â chyflyrau iechyd sylfaenol, staff iechyd a gofal cymdeithasol y rheng flaen, ynghyd â phobl ifanc 12-15 oed.

### Sut fyddaf yn cael fy ngwahodd i fy apwyntiad am frechlyn atgyfnerthu COVID-19?

Gwahoddir unigolion i fynychu apwyntiad brechlyn atgyfnerthu Covid-19 drwy'r post, yn yr un modd ag y cawsant eu hail ddos.

**Hoffem atgoffa pawb i beidio â chysylltu â'u meddygfa Meddyg Teulu i ofyn am apwyntiad. Bydd apwyntiadau'n cael eu hanfon at drigolion drwy'r post.**

### Ymhle y caf gynnig brechlyn?

Bydd trigolion cymwys sy'n byw ym **Mlaenau Gwent, Torfaen, Bwrdeistref Sirol Caerffili neu Gasnewydd** yn cael gwahoddiad gan y Bwrdd Iechyd i fynychu Canolfan Brechu Torfol yng Nglynebwy, Pontllanfraith, Casnewydd neu Gwmbrân.

Bydd trigolion cymwys sy'n byw yn **Sir Fynwy** yn cael gwahoddiad i fynd am frechlyn gan naill ai'r Bwrdd Iechyd neu'r Meddyg Teulu.



### Galw ar fenywod beichiog:

Nid yw'r rhan fwyaf o fenywod beichiog sy'n cael eu heintio â COVID-19 yn ddifrifol wael. Fodd bynnag, mae risg isel o salwch difrifol i'r fam a'r baban, megis angen eu derbyn i uned gofal dwys a genedigaeth gynamserol. Mae'r risgiau hyn yn uwch yn ddiweddarach mewn beichiogrwydd ac ymhlith menywod sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol.

**Ffoniwch 0300 3031373** i drefnu eich apwyntiad am frechlyn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: [www.rcog.org.uk/covid-vaccine](https://www.rcog.org.uk/covid-vaccine)

### Imiwnoataliedig

Mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn cynnig trydydd dos sylfaenol o'r brechlyn COVID-19 i unigolion 12 oed a hŷn sydd â gwrthimiwnedd difrifol, oherwydd cyflyrau iechyd sylfaenol neu driniaeth feddygol. Yn ôl cyngor y JCVI, dylai'r grŵp hwn o gleifion fod yn flaenoriaeth o ran cael trydydd dos, gan ei bod hi'n bosibl nad yw eu brechlynnau sylfaenol wedi datblygu ymateb imiwnedd digonol hyd yn hyn.

Os ydych chi'n teimlo eich bod yn rhan o'r grŵp hwn, cysylltwch â'n tîm brechu ar 0300 303 1373 cyn gynted â phosibl. Bydd ein tîm yn cymryd manylion perthnasol ac yna'n cysylltu â'ch clinigwr i gadarnhau eich safle. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

[www.gov.uk/government/publications/third-primary-covid-19-vaccine-dose-for-people-who-are-immunosuppressed-jcvi-advice/joint-committee-on-vaccination-and-immunisation-jcvi-advice-on-third-primary-dose-vaccination](https://www.gov.uk/government/publications/third-primary-covid-19-vaccine-dose-for-people-who-are-immunosuppressed-jcvi-advice/joint-committee-on-vaccination-and-immunisation-jcvi-advice-on-third-primary-dose-vaccination)

Gwybodaeth ynghylch pàs y GIG: <https://gov.wales/nhs-covid-pass-prove-your-vaccination-status>

Am ragor o wybodaeth ynghylch y Brechlyn Covid-19, ewch i: <https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/>

Gwybodaeth ynghylch y Brechlyn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru:  
<https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/>